

Mae CLILC yn falch o gynnig y sylwadau ychwanegol canlynol / The WLGA is pleased to offer the following additional comments:

Beth arall allai Llywodraeth Cymru ei wneud, y tu hwnt i gyllid ychwanegol, i liniaru effaith llai o gyllid ar ddiwylliant a chwaraeon?	What else could the Welsh Government do, beyond additional funding, to mitigate the impact of reduced funding on culture and sport?
• Mwy o gydnabyddiaeth genedlaethol o'r rôl ataliol y mae'r sector yn ei chwarae o ran iechyd a gofal cymdeithasol, a'i gyfraniad i'r economi. Annog ymyrraeth gynnar gyda diwylliant a gweithgareddau hamdden/chwaraeon fel opsiwn rhatach a gwell nag aros nes bod angen ymyrraeth drutach, arbenigol. • Ymrwymiad i drefniadau cyllido tymor canolig ar gyfer pob grant yn y maes, er enghraifft ac o leiaf tair blynedd i ddarparu sicrwydd swydd i'r gweithlu / lleihau trosiant / colli profiad a gwastraff adnoddau. • Datblygu rhagnodi cymdeithasol. Cydweithio i sefydlu Rhaglen Atgyfeirio Ymarfer ychwanegol ar gyfer cyflyrau nad ydynt yn rhai cronig. Mae nifer o gynghorau wedi treialu gwaith sy'n awgrymu y gall ymyrraeth o'r fath fod yn hunangynhaliol yn ariannol os yw'n derbyn mewnbwn gan y sector iechyd o ran atgyfeiriadau. Gall fod yn ymyrraeth ataliol werthfawr iawn a lleihau'r galw ar y sector iechyd wrth wneud cyfleusterau hamdden yn fwy hunangynhaliol.	• Greater national recognition of the preventative role the sector plays in terms of health and social care, and its contribution to the economy. Encourage early intervention with culture and leisure/sports activities as a cheaper and better option than waiting until more expensive, specialist, intervention is needed. • A commitment to medium term funding arrangements for all grants in the field, for example and minimum of three years to provide job security for the workforce / reduce turnover / loss of experience and waste of resources. • Developing social prescribing. Collaborate to establish an additional Practice Referral Program for non-chronic conditions. Several councils have piloted work which suggests that such an intervention can be financially self-sustaining if it receives input from the health sector in terms of referrals. It can be a very valuable preventative intervention and reduce demand on the health sector while making leisure facilities more self-sustaining.

• Caniatáu i gynghorau alinio ffioedd defnyddwyr NERS â strwythurau prisio lleol, sydd yn ei dro yn gwneud y cynllun yn fwy hyfyw ac yn caniatáu mwy o drosbwn o gleientiaid a allai fod yn ddefnyddwyr parhaus canolfannau hamdden yn eu tro. • Ystyried lleihau neu ddileu'r NDR a dalwyd ar adeiladau hamdden y cyngor yn yr un modd â buddion pob ymddiriedolaeth elusenol a gwasanaeth hamdden allanol. • Ystyried gostwng tariffau ynni ar gyfer sefydliadau sydd â'u prif nod yw cynnal a gwella lles corfforol neu feddyliol pobl. • Mwy o hyblygrwydd ar gyfer dulliau lleol o gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol yn hytrach na pholisïau / dulliau cyffredinol. • Adolygu'r Grant Nofio am Ddim i osod disgwyliadau cliriach sydd yn cyfateb yn well i'r lefel o fuddsoddiad sydd ar gael ac yn dilyn blaenoriaethau clir. E.e. medru ei ddefnyddio i dargedu plant a phobl ifanc sydd yn methu nofio.	• Allow councils to align NERS user fees with local pricing structures, which in turn makes the scheme more viable and allows for greater throughput of clients who in turn potentially become ongoing users of leisure centres. • Give consideration to reducing or removing the NDR paid on council leisure buildings in the same way as every charitable trust and outsourced leisure service benefits. • Give consideration to the lowering of energy tariffs for organisations whose main aim is the maintenance and improvement of people's physical or mental well-being. • Increased flexibility for local approaches to achieving national priorities rather than blanket policies / approaches. • Re-visit the Curriculum for Wales to lay a clearer emphasis on ensuring that all children learn swimming as a necessary life skill. The national transport framework should also be looked at to take into account school travel costs (particularly in rural areas).
Mae Nofio Cymru wedi galw am warchodaeth statudol i byllau nofio. Beth yw eich barn ar hyn? Ni ellir disgwyl i lywodraeth leol fodloni dyletswyddau statudol ychwanegol i ddarparu gwasanaethau y tu allan i'r cyllidebau	Swim Wales has called for statutory protection for swimming pools. What are your views on this? Local government cannot be expected to meet additional statutory duties to provide services out of existing budgets; making

presennol; ni fyddai gwneud rhywbeth statudol i geisio 'gwarchod' yn dderbyniol yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Ni fyddai cynghorau'n croesawu deddfwriaeth bellach oni bai ei bod yn dod ag ymrwymiad ariannu llawn a pharhaus gan Lywodraeth Cymru. Byddai angen ystyried sail unrhyw ddarpariaeth statudol yn ofalus hefyd, yn enwedig o ystyried ardaloedd gwledig/pellter teithio i byllau ac ati.	something statutory to try to 'protect' it would not be acceptable in the current financial climate. Councils would not welcome further legislation unless it came with a full and ongoing funding commitment from the Welsh Government. The basis of any statutory provision would also need to be carefully considered, especially considering rural areas/ travel distance to pools etc.
Beth arall y gallai Cyngor y Celfyddydau a Chwaraeon Cymru ei wneud, y tu hwnt i gyllid ychwanegol, i liniaru effaith llai o gyllid ar ddiwylliant a chwaraeon? • Ymrwymo i drefniadau cyllido tymor canolig - hyd yn oed os mai cyllidebau dangosol yn unig ydynt. • Adolygu'r Grant Nofio am Ddim i osod disgwyliadau cliriach sy'n cyfateb yn well i lefel y buddsoddiad sydd ar gael a dilyn blaenoriaethau clir, ee gallu ei ddefnyddio i dargedu plant a phobl ifanc nad ydynt yn gallu nofio.	What else could the Arts Council and Sport Wales do, beyond additional funding, to mitigate the impact of reduced funding on culture and sport? • Commit to medium-term funding arrangements – even if only indicative budgets. • Revise the Free Swimming Grant to set clearer expectations that better match the level of investment available and follow clear priorities, eg being able to use it to target children and young people who are unable to swim.